Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr

## *Sefydliadau Addysg Bellach*

### Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn ddilys hyd nes i'r sector AB gael gwybod fel arall.

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2025

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


1. Y Cefndir ... 3
2. Nod y Rhaglen ... 4
3. Cynnwys y Rhaglen ... 4
   a) Costau addysgu (wedi'u dangos drwy LLWR) ... 5
   b) Costau heb fod yn gysylltiedig ag addysgu (wedi'u dangos drwy'r datganiad o wariant) ... 5
4. Cyllido Monitro a Gwerthuso ... 6
5. Gofynion Cyflwyno Data ... 7
   Dysgu Mewn Grŵp ... 7
   Dysgu 1 wrth 1 ... 7
   Codau Rhaglen ... 7
6. Manylion Cyswllt ... 8
7. Atodiadau ... 9
   A. Datganiad o Wariant – Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr ... 9
   B. Templed cyllido, monitro a gwerthuso ... 10
   Tabl Cyllido ... 10
   Gwerthuso ... 11
   C. Cyllido, Monitro a Gwerthuso – Canllawiau Cwblhau ... 15
   Tabl Cyllido ... 15
   D. Enghraifft o Gofnodion y Tabl Gwariant ... 16

## 1. Y Cefndir

Mae Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr wedi cael ei ddyrannu er mwyn galluogi chweched dosbarth awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i ddarparu oriau dysgu ychwanegol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 12, 13, ac uwch.

Darparwyd y cyllid ychwanegol hwn i gydnabod bod pandemig COVID wedi tarfu ar ddysgwyr. Gan hynny, efallai y bydd angen cymorth ac arweiniad pellach ar ddysgwyr er mwyn helpu i ddiogelu eu llesiant, eu gwneud yn fwy gwydn, a'u galluogi i ennill eu cymwysterau'n llwyddiannus.

Mewn adroddiad diweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD),What Shapes Pathways and Transitions?, nodwyd bod dysgwyr yng Nghymru yn teimlo'n llai hyderus ynglŷn â dysgu'n annibynnol a'r gweithgareddau sy'n cefnogi hynny, fel trefnu eu hamser a monitro eu cynnydd, na chyfartaledd yr OECD.

Mae adroddiad yr OECD hefyd yn rhoi awgrym polisi i Gymru archwilio'r posibilrwydd o greu llwybrau dilyniant sy'n adeiladu ar y sylfeini sydd gan ddysgwyr wrth gychwyn addysg ôl-16, gan gynnwys llenwi bylchau a gwybodaeth a sgiliau coll, a chreu llwybr tuag at 'gwblhau'.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Estyn adroddiadau thematig ar Meithrin parch ar y ddwy ochr – hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd ac Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach. Mae'r naill adroddiad a'r llall yn cydnabod effeithiau parhaus y pandemig sy'n parhau i siapio ymddygiad dysgwyr, gyda llawer o bobl ifanc yn arddangos oedi i'w datblygiad, yn enwedig o ran sgiliau cymdeithasol a gwytnwch. Er bod effeithiau uniongyrchol y pandemig wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r heriau sy'n weddill i'w gweld yn ymgysylltiad dysgwyr a'u capasiti i ymdopi â phwysau academaidd.

Mae'r adroddiad *Meithrin parch ar y ddwy ochr – hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd* yn awgrymu bod llawer o resymau wrth wraidd yr ymddygiad y gallai disgyblion ei arddangos. Mae'r rhain yn cynnwys ansefydlogrwydd teuluol, pwysau economaidd-gymdeithasol, problemau iechyd meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae problemau ymddygiad cyffredin a nodwyd gan ysgolion yn cynnwys aflonyddu lefel isel parhaus, gweithredoedd herfeiddiol ac, i raddau llai, gwrthdaro corfforol. Yn sgil ffactorau allanol fel dylanwad y cyfryngau cymdeithasol a materion sy'n gysylltiedig â'r gymuned fel ymddygiad gwrthgymdeithasol rydym wedi gweld ymddygiadau mwy cymhleth mewn ysgolion. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai ysgolion gryfhau eu systemau rheoli ymddygiad drwy gynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion bwydo, rhieni a gofalwyr, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol, wrth ddatblygu polisi a phrosesau clir a chyson.

Mae'r adroddiad ar *Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach* yn cydnabod bod ymddygiadau negyddol yn dal i fod yn amlwg mewn colegau, a bod cyrraedd yn hwyr, absenoldeb, defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol, a fepio yn faterion yr adroddir amdanynt yn aml. Mae ymddygiadau mwy pryderus, er eu bod yn llai cyffredin, yn cynnwys achosion o aflonyddu rhywiol, camddefnyddio sylweddau, a thrais ymhlith cyfoedion. Cydnabyddir yn yr adroddiad fod Colegau yn gyffredinol yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn rheoli ymddygiad ac arferion sy'n ystyriol drawma, ond

cydnabyddir hefyd eu bod wedi cyrraedd camau amrywiol o ran ymwreiddio arferion rheoli ymddygiad.

## 2. Nod y Rhaglen

Nod y cyllid yw sicrhau bod:

- Dysgwyr yn cael cyfle i adolygu dysgu blaenorol a datblygu gwybodaeth er mwyn bodloni gofynion eu cwrs, gan ganolbwyntio ar lenwi bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau sydd ar goll.

- Darperir cymorth bugeiliol penodol i ddysgwyr, gan gynnwys cymorth gyda sgiliau cymdeithasol, gwydnwch a meithrin hyder i'w galluogi i ymdopi'n well â phwysau academaidd, gan gefnogi dysgu a dilyniant llwyddiannus.

- Dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau dysgu annibynnol, gan gynnwys sgiliau ymchwil a rheoli amser.

- Mae Colegau yn gallu sefydlu systemau effeithiol gyda fframweithiau clir i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a gweithredu strategaethau er mwyn helpu i wella ymddygiad a phresenoldeb (**uchafswm o 10%** o gyllid heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw).

Mae adroddiad Estyn, Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach yn argymell y dylai colegau:

A1 Gydweithio i sicrhau bod y rhai sydd â dulliau rheoli ymddygiad llai datblygedig yn gallu dysgu gan y rhai sydd â systemau a phrosesau mwy sefydledig, gan eu galluogi i wella a mireinio'u harferion eu hunain.

A2 Sicrhau bod arweiniad clir ar gael i ddysgwyr ar ddefnydd cyfrifol o gyfryngau cymdeithasol a rhoi strategaethau targededig ar waith i reoli camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol drwy addysgu a dysgu, a phrosesau rheoli ymddygiad.

A4 Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr a staff am argaeledd timau a gwasanaethau cymorth ymddygiad arbenigol, gan sicrhau sianelau cyfathrebu clir a chyfeirio gweladwy ar draws amgylchedd y coleg.

A5 Datblygu cymorth teilwredig a chynhwysol ymhellach ar gyfer dysgwyr sy'n teimlo'n fwy bregus o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau bod systemau cymorth ymddygiadol yn diwallu eu hanghenion unigryw.

## 3. Cynnwys y Rhaglen

Bydd gan bob darparydd ei safbwynt ei hun ynghylch sut i gefnogi ei ddysgwyr orau a bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y rhaglenni sy'n cael eu cynnal yn ogystal â nodweddion y dysgwr. Fodd bynnag, dylai Darparwyr[1]:

[1] Dyma argymhellion Estyn.

- Cael gweledigaeth glir ar gyfer y deilliannau y maent yn dymuno eu cael o'r gwariant ychwanegol hwn
- Gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu strategaethau i gefnogi cynnydd a lles dysgwyr
- Olrhain a gwerthuso effaith unrhyw wariant ychwanegol yn aml er mwyn addasu cynlluniau cyfredol lle mae angen, a llywio cynlluniau i'r dyfodol

Er gwybodaeth yn unig y darperir yr enghreifftiau isod, ac maent yn dangos sut y gellid defnyddio'r cyllid.

***a) Costau addysgu*** *(wedi'u dangos drwy LLWR)*

*i. Oriau grŵp ychwanegol gan gynnwys:*

- oriau estynedig ar yr amserlen bob wythnos ar gyfer pob pwnc
- uwchsgilio penodol wedi'i dargedu yn ôl pwnc h.y. Mathemateg ar gyfer Ffiseg, Saesneg Iaith ar gyfer Cymdeithaseg)
- blociau o addysgu penodol i Fathemateg/Saesneg
- gweithdy ychwanegol, labordy, gwersi grŵp stiwdio

*ii. Addysgu 1 wrth 1 ychwanegol:*

- dysgu pynciau penodol
- Hyfforddiant Mathemateg ac/neu Saesneg
- amser gweithdy penodol ar gyfer agweddau ymarferol/sgiliau llaw/sgiliau labordy/sgiliau stiwdio

*iii. Cymorth bugeiliol (heb fod yn gysylltiedig â darpariaeth maes pwnc):*

- oriau ychwanegol wedi'u hamserlennu i roi cymorth ar gyfer gwydnwch, i ddychwelyd i ddysgu, i osod nodau, i feithrin hyder, i baratoi am arholiad(au), ar gyfer sgiliau astudio, sgiliau cyflwyno (grŵp neu 1 wrth 1)
- deunyddiau cymorth ar-lein i'w cyflwyno i grwpiau bach

*iv. Gweithgareddau sgiliau astudio ychwanegol:*

- cyflwyno sgiliau astudio ychwanegol i grwpiau bach yn ôl lefel
- gweithgareddau sefydlu gwell, ysgolion haf, ac ysgolion hanner tymor
- digwyddiadau a gweithgareddau cyfoethogi 'myfyrwyr mwy abl a thalentog'
- Sgiliau dysgu annibynnol

*b)* **Costau heb fod yn gysylltiedig ag addysgu** (wedi'u dangos drwy'r datganiad o wariant)

*i. Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr:*

- Swyddog Llesiant ychwanegol i gefnogi presenoldeb ac ymyrraeth gynnar
- amser ychwanegol gan y Cynorthwyydd Cymorth Dysgu er mwyn helpu dysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Cymorth ELSA (cynorthwyydd cymorth dysgu emosiynol) i ddysgwyr ag anghenion llesiant emosiynol

- swyddogion ymgysylltu â dysgwyr ychwanegol er mwyn helpu dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm ehangach a gweithgareddau allgwricwlaidd.
- cwnsela i ddysgwyr ag anghenion iechyd meddwl mwy difrifol
- cymorth TG ychwanegol
- cymorth sgiliau cyflogadwyedd

*ii. Gweinyddu*

- cynhyrchu deunyddiau 'ymgysylltu' i ddysgwyr
- datblygu a gweithredu systemau neu strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol

Gall dysgwyr ddysgu mewn grŵp, dysgu ar sail 1 wrth 1 neu gymysgedd o'r ddau.

**Nid** yw dysgwyr sydd wedi cofrestru ar Raglenni Dysgu Carlam neu Estynedig, lle mae nifer yr oriau dysgu yn uwch na'r oriau safonol, yn gymwys i dderbyn Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr.

Caiff colegau ddefnyddio, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Medr, hyd at 10% o'u Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr i weithredu strategaethau er mwyn helpu i wella ymddygiad a phresenoldeb.

## 4. Cyllido Monitro a Gwerthuso

Bydd monitro ac archwilio yn cyfrannu at sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso mewn modd cyson ac yn helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro darpariaeth y rhaglen. Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i sefydliadau sicrhau bod data yn cael eu cyflwyno'n brydlon ac yn unol â gofynion cyflwyno data a amlinellir yn adran 5.

Yn ogystal â hynny, dylai Colegau lenwi'r canlynol:

- y datganiad o wariant **wedi'i lofnodi gan y Cyfarwyddwr Addysg** (Atodiad A); a

- thempled Cyllido, Monitro a Gwerthuso (Atodiad B)

a'u hanfon yn ôl i Medr (BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru) erbyn **31 Awst 2026**

### Adennill cyllid

Ar ôl dychwelyd y dystiolaeth uchod, bydd unrhyw danwariant sy'n is na'r targed o **95%** ar gyfer y dyraniad hwn yn cael ei adennill yn llawn. Ni fydd unrhyw opsiwn i gario'r dyraniad ymlaen i'r blynyddoedd nesaf.

## 5. Gofynion Cyflwyno Data

Mae Llawlyfr Cefnogi Defnyddwyr LLWR[2] yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Dysgu Mewn Grŵp*

Ar gyfer dysgu mewn grŵp, dylai'r cod rhaglen Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr (LRPF) fod yn berthnasol i sector y rhaglen astudio amser llawn. Er enghraifft, os yw dysgwr ar raglen amser llawn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cymryd rhan mewn oriau grŵp ychwanegol, dylid cofnodi'r amcangyfrif o oriau a gyllidwyd drwy'r LRPF [3]yn erbyn cod 0100XXXR.

Yn unol â phob rhaglen, os bydd dysgwr yn rhoi'r gorau i'r rhaglen o fewn yr 8 wythnos gyntaf, ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei alinio â'r dysgwr hwnnw.

Cyn gynted ag y bo'r oriau grŵp ychwanegol wedi'u darparu'n llawn, dylid diweddaru nifer yr oriau LRPF gwirioneddol[4] i adlewyrchu'r oriau a ddarparwyd. Nid yw'n ofynnol i newid yr amcangyfrif o oriau LRPF a gofnodwyd yn flaenorol, ond os oes newid sylweddol i'r oriau gwreiddiol a amserlennwyd. Nid oes angen newid yr oriau i adlewyrchu'r ffaith bod dysgwr wedi bod yn absennol am bythefnos, er enghraifft.

Os nad yw'r cod rhaglen LRPF yn cyd-fynd â maes sector y rhaglen amser llawn, sylwer y bydd yr oriau hyn yn cael eu hystyried yn anghymwys ar gyfer cyllid.

### *Dysgu 1 wrth 1*

Ar gyfer oriau 1 wrth 1, dylid defnyddio'r cod rhaglen LRPF 9900XXXR. Dylid gwneud hynny waeth beth yw maes sector pwnc y rhaglen astudio amser llawn.

Cyn gynted ag y bo'r oriau 1 wrth 1 LRPF wedi'u darparu'n llawn, dylid diweddaru nifer yr oriau gwirioneddol a ddarparwyd, a dylai hynny gyd-fynd â systemau monitro mewnol y darparydd sy'n cofnodi cymorth 1 wrth 1.

### *Codau Rhaglen*

Dylid defnyddio'r codau rhaglen canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn Cyrsiau ymgysylltu:

| | |
|---|---|
| 0000XXXR | Oriau Grŵp: Addysg Gyffredinol |
| 0100XXXR | Oriau Grŵp: Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal |
| 0200XXXR | Oriau Grŵp: Gwyddoniaeth a Mathemateg |
| 0300XXXR | Oriau Grŵp: Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid |
| 0400XXXR | Oriau Grŵp: Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu |
| 0500XXXR | Oriau Grŵp: Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig |
| 0600XXXR | Oriau Grŵp: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |

[2]Gellir cyrchu hwn yn Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).
[3] Ar gyfer cyflwyniadau LLWR roedd hyn yn berthnasol i faes LP69.
[4] Ar data a gyflwynir i LLWR, mae hyn yn berthnasol i faes LP71.

0700XXXR Oriau Grŵp: Menter Manwerthu a Masnachol
0800XXXR Oriau Grŵp: Hamdden, Teithio a Thwristiaeth
0900XXXR Oriau Grŵp: Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi
1000XXXR Oriau Grŵp: Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth
1100XXXR Oriau Grŵp: Y Gwyddorau Cymdeithasol
1300XXXR Oriau Grŵp: Addysg a Hyfforddiant
1400XXXR Oriau Grŵp: Paratoi am Fywyd a Gwaith
1500XXXR Oriau Grŵp: Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
9900XXXR Oriau 1 wrth 1

## 6. Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr yn y blwch post canlynol: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## 7. Atodiadau

### *A. Datganiad o Wariant – Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr*

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| | |
|---|---|
| **Dychwelyd i:** | BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru |
| **Dychwelyd erbyn:** | 31 Awst 202X[5] |

| | |
|---|---|
| **Enw'r Sefydliad AB** | |
| **Cyfanswm y Gwariant ar gyfer Gweithgarwch Adferiad a Chynnydd Dysgwyr** | |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Asesiad Allanol Diwethaf y swyddogaeth Archwilio Mewnol** | |
| **Wedi'i gynnal gan** | |
| **A yw'n cydymffurfio â PSIAS 1312? Bydd / Na fydd** | |

Rwy'n ardystio drwy hyn, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod yr wybodaeth a roddir uchod yn gywir a bod yr holl wariant wedi'i gyflawni'n unol â'r nodau a'r amcanion cytunedig, yn unol â'r Llythyr Dyfarnu Grant a'r Telerau ac Amodau Cyllid cysylltiedig.

Rwyf hefyd yn ardystio bod cofnodion cyfrifyddu clir wedi'u cadw ar lefel y darparydd i ddangos bod y cyllid wedi'i dderbyn a'i ddosbarthu wedi hynny i'r maes gwasanaeth perthynol; a bod y cyllid hwnnw wedi'i gynnwys o dan reolaethau ariannol arferol y Sefydliadau, gan gynnwys adolygiad cyfnodol gan archwilio mewnol.

| | **Cyfarwyddwr Cyllid (neu gyfwerth)** |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |

[5] Mae'r dyddiad hwn yn cynrychioli'r diwrnod olaf ym mis Awst sy'n union ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd y mae'r Datganiad yn cyfeirio ati.

## *B. Templed cyllido, monitro a gwerthuso*

| **Teitl y grant** | Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr | **Cyfnod cyllido** | Blwyddyn Academaidd 2025/26 |
|---|---|---|---|
| **SAB** | | **E-bost Cyswllt** | |

*Tabl Cyllido*

| **Defnydd o'r cyllid** (e.e., enw'r gweithgaredd, oriau grŵp ychwanegol, oriau 1 wrth un ychwanegol, neu brynu eitemau/gwasanaethau) | Cyllid / Gwariant (£) | **Buddiolwyr uniongyrchol** (e.e., dysgwyr lefel 2, dysgwyr â CDU/datganiadau ADY, staff addysgu, dysgwyr â lefel isel o bresenoldeb, dysgwyr mwy abl a thalentog ac ati). | **Nifer bras o fuddiolwyr unigryw** | **Brasamcan o'r buddiolwyr ar ffurf % o gyfanswm y cohort** | **Dyfarnwch effaith y gwariant ar raddfa o 1-10** (gweler y nodiadau canllaw am ddisgrifyddion) | **Sylwadau** (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | | |

*Gwerthuso*

**C1) Beth oedd canlyniadau'r cyllid?** Disgrifiwch yr hyn a gyflawnwyd drwy'r gweithgarwch a ariannwyd / gwariant a'r effeithiau a welwyd. Efallai yr hoffech chi dynnu sylw at yr agweddau a arweiniodd at y buddion mwyaf a lleiaf. Efallai yr hoffech gynnwys disgrifiad byr ynghylch sut yr oeddech wedi gallu mesur yr effeithiau. Os bu unrhyw ran o’r gwaith hwn o fudd penodol i ddysgwyr agored i niwed ac/neu ddifreintiedig, gan gynnwys rhai ag ADY, cyfeiriwch at hynny yma.

| | |
|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | |

**C2) Yn gyffredinol, pa mor effeithiol oedd y cyllid o ran sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd?** Myfyriwch ar yr hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â'r amcanion gwreiddiol a nodwyd yn y ddogfen ganllaw hon. Efallai y byddwch am ddisgrifio'r hyn a ysgogodd y gwaith a gyflawnwyd. A gafwyd unrhyw ganlyniadau annisgwyl (rhai cadarnhaol neu negyddol)? A oedd angen addasu'r gweithgarwch a ariannwyd/gwariant mewn unrhyw ffordd yn ystod y cyfnod? Efallai yr hoffech chi wneud sylw am y gwerth a sicrhawyd o gymharu â'r swm o arian, h.y. gwerth am arian.

| Dewiswch sgôr ar raddfa o 1-5 | 1<br>Ddim yn effeithiol o gwbl | 2 | 3<br>Gweddol effeithiol | 4 | 5<br>Effeithiol iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

| | |
|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | |

**C3a) Beth aeth yn dda o ran defnyddio'r cyllid hwn?** Ar gyfer cwestiynau 3a a 3b, mae croeso ichi adrodd am unrhyw agweddau sy'n berthnasol yn eich barn chi. Peidiwch â chyfyngu eich ymateb i'r awgrymiadau canlynol yn unig. Os yw'n briodol, efallai y byddwch am ystyried y broses o ddysgu am y cyllid, o wneud cais amdano, o ddeall ei ddiben, ac o'i dderbyn. O ran y defnydd o'r cyllid, oeddech chi'n gallu creu cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn? Oeddech chi'n gallu monitro effeithiolrwydd/olrhain cynnydd y gwaith a gwneud addasiadau? A oedd partneriaid gwaith yn ddibynadwy? A gyrhaeddwyd cerrig milltir o fewn graddfeydd amser disgwyliedig? **Efallai yr hoffech chi dynnu sylw at unrhyw enghreifftiau arbennig o arfer da, fel astudiaeth achos.**

| | |
|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | |

**C3b) O edrych yn ôl, beth fyddech chi wedi'i wneud yn wahanol?**

| | |
|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | |

**C3c) Sut y bydd y gwaith a ariannwyd yn dylanwadu ar unrhyw weithgarwch yn y dyfodol?** A fydd y gweithgarwch a ariannwyd/gwariant a gyflawnwyd yn arwain at unrhyw welliannau parhaol? h.y., a yw'r cyllid wedi achosi newidiadau parhaol neu a yw'r newidiadau a ariannwyd yn rhai dros dro, gydag arferion/amgylchiadau'n debygol o ddychwelyd i'r norm blaenorol wedi i'r cyllid ychwanegol ddod i ben? (Sylwch y gallai hyn fod yn optimaidd os oedd y gwaith yn ymateb i broblem a fodolai dros dro) A yw

unrhyw agweddau ar y gwelliannau a gyflawnwyd yn gynaliadwy heb gyllid ychwanegol parhaus? h.y., a fydd yn troi'n fusnes fel arfer/yn norm newydd?

A yw'r gweithgarwch a ariannwyd/gwariant wedi rhoi unrhyw fewnwelediad a fydd yn goleuo eich ffyrdd arferol o weithio neu gynlluniau ar gyfer gwella?

| | |
|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | |

**C4) Sut y gallai Medr wella'r ffordd y caiff cyllid tebyg ei ddefnyddio ac/neu ei ddyrannu yn y dyfodol?** Lle bo'n berthnasol, defnyddiwch y lle gwag hwn i nodi unrhyw awgrymiadau ymarferol yr hoffech eu gwneud ynghylch sut y gallai'r trefniadau cyllido hyn fod wedi bod yn well. Gallai'r rhain gynnwys ystyried proffiliau/amserlenni taliadau, amodau/cyfyngiadau ar gyllid, canllawiau a roddwyd, cymorth a dderbyniwyd, maint ac oes y cyllid, y ffordd y dyrannwyd cyllid rhwng darparwyr ac i ba raddau y mae'r cyllid yn ategu incwm/grantiau presennol, yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Eglurwch eich rhesymeg lle bo modd, a rhoi tystiolaeth/enghreifftiau ategol.

| |
|---|
| |

**Sylwadau eraill** (dewisol)

| |
|---|
| |

Sylwer: Efallai y gofynnir ichi gymryd rhan mewn gweithgaredd gwerthuso pellach a gomisiynir gan Medr yn gysylltiedig â'r cyllid hwn.

| **Enw** | | **E-bost** | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod** | | **Dyddiad** | |

## *C. Cyllido, Monitro a Gwerthuso – Canllawiau Cwblhau*

*Tabl Cyllido*

| | |
|---|---|
| Defnydd o'r cyllid | Rhowch deitl neu label cryno ar gyfer y math o weithgarwch/gwariant. Dylai hwn fod yn ddisgrifiad byr o'r gweithgarwch a gyllidwyd, neu'r nwyddau/gwasanaethau a brynwyd. |
| Cyllid / Gwariant (£) | Rhowch ffigur i ddangos faint o gyllid a ddefnyddiwyd i alluogi pob math gwahanol o weithgarwch.<br>Cyfrifir y gwariant ar gyfer oriau grŵp ychwanegol, addysgu 1 wrth 1 ychwanegol, cefnogaeth fugeiliol a gweithgareddau sgiliau astudio ychwanegol drwy LLWR. |
| Buddiolwyr uniongyrchol | Rhowch nodwedd arbennig y grŵp a wnaeth elwa yn uniongyrchol ar hyn (e.e., dysgwyr lefel 2, dysgwyr â CDU/datganiadau ADY, aelodau staff addysgu, dysgwyr â phresenoldeb isel, dysgwyr MATh ac ati.)<br>. |
| Nifer bras o fuddiolwyr unigryw | Yn dibynnu ar y cyd-destun, mae'n dderbyniol rhoi amcangyfrif yma (mewn achosion o'r fath, nodwch hynny yn y golofn sylwadau). Lle bo modd, dylech gyfrif unigolion sydd wedi/yn elwa'n uniongyrchol ar y cyllid, yn hytrach na'r rhai a allai fod wedi elwa arno o bosib (h.y., a gafodd gynnig ond na wnaeth fanteisio arno). Yn ogystal â hynny, i ddibenion y tabl hwn, nid oes angen cynnwys buddiolwyr anuniongyrchol. Er enghraifft, bydd cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon o fudd uniongyrchol i'r athrawon dan sylw, ac o fudd anuniongyrchol i'w dysgwyr; yn yr achos hwn dim ond nifer yr athrawon y mae angen eu cynnwys yn y golofn hon. Gellir tynnu sylw at fuddiolwyr anuniongyrchol yn y golofn sylwadau os yw'n briodol. |
| Brasamcan o'r buddiolwyr ar ffurf % o gyfanswm y cohort | Wrth gyfrifo'r ganran hon, cymerwch yn ganiataol bod y 'cohort cyfan' yn cynnwys nifer y dysgwyr 16-19 oed unigryw a ariennir gan Medr o fewn y darparydd. |
| Dyfarnwch effaith y gwariant ar raddfa o 1 i 10 | 1 Roedd yr effaith yn <u>negyddol iawn</u>, gyda'r gweithgarwch neu'r cyllid yn cael effaith andwyol ar y cyfan; h.y. gwneud pethau'n waeth nag y byddent o beidio gwario'r cyllid<br>2 <u>Ychydig o effaith negyddol</u> ar y cyfan<br>3 Roedd yr effaith yn <u>niwtral</u> ar y cyfan, h.y., yn fras ni chafwyd unrhyw fudd net o ganlyniad i'r gwariant<br>4 <u>Ychydig</u> o fudd ar y cyfan<br>5 Budd <u>cymedrol</u> ar y cyfan<br>6 Budd <u>addas</u> ar y cyfan |

| | |
|---|---|
| | 7 Budd da ar y cyfan<br>8 Budd da iawn ar y cyfan<br>9 Budd ardderchog ar y cyfan sy'n teilyngu dadansoddi pellach ac amlygu'n genedlaethol<br>10 Budd eithriadol sy'n teilyngu dadansoddi pellach ac amlygu'n genedlaethol |
| Sylwadau | Defnyddiwch y golofn hon i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol am y cyd-destun, er mwyn gallu deall yn well yr wybodaeth a fewnbynnwyd i'r tabl. Er enghraifft, efallai yr hoffech esbonio'r sail resymegol wrth wraidd y sgôr effaith a ddewiswyd gennych, ychwanegu cyd-destun i egluro pwy oedd y buddiolwyr a fwriadwyd, neu roi disgrifiad pellach o'r modd y defnyddiwyd y cyllid. |

## D. *Enghraifft o Gofnodion y Tabl Gwariant*[6]

| **Defnydd o'r cyllid** | **Cyllid / Gwariant** (£) | **Buddiolwyr uniongyrchol** | **Nifer bras o fuddiolwyr unigryw** | **Brasamcan o'r buddiolwyr ar ffurf % o gyfanswm y cohort** | **Dyfarnwch effaith y gwariant ar raddfa o 1-10** | **Sylwadau** (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sesiynau addysgu grŵp yn seiliedig ar bynciau | 236,000 | Pob dysgwr a gyllidir gan Medr sydd fel arfer yn cael ei addysgu mewn grwpiau pwnc | 3800 | 90% | 6 | Roedd pob grŵp addysgu yn cael awr ychwanegol o addysgu gyda thiwtor pwnc am 30 wythnos ar yr amserlen. Roedd presenoldeb cyfartalog yn y sesiynau hyn ymhlith dysgwyr amser llawn yn 71%, sy'n esbonio'r sgôr effaith is. Roedd llawer o ddysgwyr a oedd yn mynychu'n rheolaidd o'r farn fod y sesiynau'n ddefnyddiol. |
| Sesiynau llesiant grŵp | 20,000 | Dysgwyr a nodwyd gan athrawon, tiwtoriaid | 800 | 19% | 7 | Roedd sesiynau grŵp naill ai'n drafodaethau therapi grŵp dan arweiniad ymarferwyr neu'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar. Cyfres o |

[6] Cyflwynir yr enghreifftiau canlynol i ddibenion dangosol yn unig; nid yw'r ffigurau a ddangosir yn adlewyrchu costau gwirioneddol.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cymorth dysgu/bugeiliol neu wedi'u hunangyfeirio | | | | bum sesiwn. Ni ddaeth pob dysgwr i bob un o'r pum sesiwn – cafwyd presenoldeb o 75% ar gyfartaledd. Sgôr effaith yn seiliedig ar adborth dysgwyr. |
| Addysgu/tiwtora un-wrth-un | 70,000 | Dysgwyr a nodwyd gan athrawon, tiwtoriaid cymorth dysgu/bugeiliol neu wedi'u hunangyfeirio | 1400 | 33% | 8 | Aeth amryw o ddysgwyr i fwy nag un sesiwn. |
| Cyflogwyd dau gynghorydd rhan-amser i gefnogi iechyd meddwl a llesiant dysgwyr | 40,000 | Dysgwyr â phroblemau iechyd meddwl a llesiant a oedd yn dod i'r amlwg | 70 | 2% | 7 | 1.1 CALI |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**